**Y Pwyllgor Busnes (Is-ddeddfwriaeth) BC238-00(Terfynol)**

COFNODION Y CYFARFOD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 12 Gorffennaf 2000 |
| **Amser:** | 10:45am |
| **Lleoliad:** | Ystafell y Dirprwy Lywydd (A3.10) |

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Dirprwy Lywydd, Cadeirydd<br>Y Trefnydd<br>Ieuan Wyn Jones, Rheolwr Busnes Plaid Cymru<br>William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol<br>Jenny Randerson, Rheolwr Busnes Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol<br>John Lloyd, Clerc y Cynulliad<br>David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd<br>Jane Jones, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (OCG)<br>Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol<br>Sherry Rees, Clerc y Pwyllgor Busnes<br>Marion Stapleton, Ysgrifennydd Personol y Trefnydd<br>Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr<br>Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Personol y Dirprwy Lywydd |

## 1. Ymddiheuriadau

Barbara Wilson, Dirprwy Glerc y Cynulliad.

## 2. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

2.1 **BC208-00 (cyfarfod 28 Mehefin)** - Cytunwyd ar y cofnodion, yn ddarostyngedig i un neu ddau o fân newidiadau. Dyma fyddai'r fersiwn derfynol ar gyfer ei chyhoeddi yn awr. **Gweithredu: Craig Stephenson.**

2.2 **BC219-00 (cyfarfod 4 Gorffennaf)** – Cytunwyd ar y cofnodion. Gan nad oedd unrhyw newidiadau pellach, byddai'r fersiwn derfynol yn cael ei pharatoi ar gyfer ei chyhoeddi. **Gweithredu: Craig Stephenson.**

## 3. Materion yn codi (BC208-00)

3.1 **Paragraff 5.1** – Dywedodd Nerys Arch y byddai'r gorchmynion cychwyn ar gyfer Deddf Llywodraeth Leol a'r Ddeddf Safonau Gofal yn ymddangos ym mis Hydref. Byddai manylion pellach yn cael eu darparu ar gyfer y Pwyllgor Busnes ym mis Medi. **Gweithredu: Nerys Arch, OCG.**

3.2 **Paragraff 5.3** – Dosbarthodd Sherry Rees Atodiad 2 y Gweithgor Is-ddeddfwriaeth y gofynnwyd amdano yn y cyfarfod diwethaf. Byddai sylw'n cael ei roi i'r pwynt gweithredu arall mewn perthynas â hyfforddiant is-ddeddfwriaeth o dan eitem 5 ar yr agenda.

3.3 **Paragraff 6.5** – Roedd copi o lythyr Mike German, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau, wedi cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor i'w ystyried. Bu Mike German yn bryderus ynghylch y weithdrefn ar gyfer Gorchmynion a wnaed o dan y drefn Weithredol ac a ystyriwyd yn ddiweddarach gan y Pwyllgor Deddfau. Mae'n bosibl y ceid bod materion yn y weithdrefn y dylid tynnu sylw'r Cynulliad atynt. Roedd swyddogion wedi ystyried y mater gyda'r Cynghorydd Cyfreithiol. Gan fod y Gorchymyn eisoes wedi'i wneud erbyn i'r Pwyllgor deddfau roi ei adroddiad, daethant i'r casgliad mai'r unig ddewis a oedd ar gael oedd i'r Pwyllgor Deddfau osod ei adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno. Yna, gallai'r Aelodau benderfynu a oedd y mater yn ddigon difrifol i wneud cais i'r gorchymyn gael ei adalw o dan Reol Sefydlog 22.27. Rhoddwyd y manylion ynghylch yr hyn a ystyriwyd ym mhapur BC237-00. Cytunodd y Pwyllgor a phenderfynwyd y byddai'r Dirprwy Lywydd yn ymateb. **Gweithredu: y Dirprwy Lywydd i ysgrifennu.**

## 4. Is-ddeddfwriaeth

### Rheoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywiadau) 2000

4.1 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC231-00 a oedd yn cyflwyno cyngor Christine Gwyther, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ynghylch yr ymdriniaeth a roddwyd i'r Gorchymyn uchod. Nodwyd mai Gorchymyn Rhan 2 ydoedd a'i fod wedi cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Busnes er gwybodaeth. Nid oedd angen penderfyniad ynghylch sut i ymdrin ag ef, felly.

4.2 Roedd Jenny Randerson yn bryderus ynghylch y darpariaethau a grybwyllid ym mharagraffau 4 a 7 y memorandwm eglurhaol. Cytunodd Jane Jones i ysgrifennu ati gyda manylion pellach.

4.3 Dywedodd Marion Stapleton y byddai Gorchmynion Rhan 2 eraill, a dynnwyd yn ôl gan Christine Gwyther (er mwyn cael gafael ar fanylion pellach ynghylch pa mor gyson oeddynt â pholisi'r Cynulliad ar Organebau a Addaswyd yn Enetig) yn debygol o ddilyn y drefn Weithredol yn ystod wythnosau etholaethol yr haf, gan fod MAFF wedi rhoi ar ddeall mai yn Lloegr yn unig y byddai'r gorchmynion yn cael eu gwneud yn awr. Byddai gwneud y gorchmynion yng Nghymru o dan y drefn Weithredol yn fodd o osgoi dwyn achos o dorri rheolau yn erbyn y Cynulliad. Gan fod cyngor MAFF wedi'i dderbyn yn union cyn y Pwyllgor Busnes, cytunwyd y byddai nodyn cyfarwyddo'n cael ei ddosbarthu i'r Rheolwyr Busnes yn ddiweddarach, unwaith y byddai'r goblygiadau wedi cael eu hystyried. Cytunwyd hefyd y byddai Sherry Rees yn ystyried gweithdrefnau a newidiadau i'r Rheolau Sefydlog er mwyn caniatáu i orchmynion Rhan 2 ddilyn y drefn gyflymach a galluogi'r Aelodau i ystyried y newidiadau ym mis Medi. **Gweithredu: Marion Stapleton i gyhoeddi nodyn canllaw; Sherry Rees i ystyried Gweithdrefn Gyflymach ar gyfer gorchmynion Rhan 2.**

## 5. Gweithdrefnau Is-ddeddfwriaeth etc

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y tabl o is-ddeddfwriaeth a oedd i ddod (BC235-00). Dywedodd Nerys Arch y byddai OCG yn cyfarfod swyddogion cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Busnes er mwyn gallu gwneud cynigion mwy pendant. **Gweithredu: OCG i roi cyngor pellach yn y cyfarfod nesaf.**

5.2 Ystyriodd y Pwyllgor y cynnig ar gyfer hyfforddiant a gyflwynwyd gan Jane Jones (BC233-00). Nodwyd y byddai'r hyfforddiant yn debygol o gael ei gynnal yn hwyrach na thymor cynadledda'r pleidiau sef y cyfnod a gynigiwyd yn wreiddiol ar ei gyfer. Teimlai Jane Jones y byddai'r hyfforddiant o fudd i gyfreithwyr OCG, yr Aelodau a'u staff cymorth, gan y byddai'n eu galluogi i ddeall dymuniadau Aelodau'r Cynulliad yn well. Cytunwyd ar y cynnig a byddai Craig Stephenson yn cysylltu â staff Llyfrgell y Cynulliad er mwyn iddynt hwy drefnu'r sesiynau hyfforddi. **Gweithredu: Craig Stephenson.**

**6. <u>Unrhyw fater arall</u>**

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC232-00 ar adolygiad y Gorchymyn Rhan 7 cyntaf. Dywedodd Sherry Rees bod Elin Jones, ei staff cymorth, swyddogion polisi a chyd-weithwyr yn Swyddfa'r Llywydd oll wedi cymryd rhan yn yr adolygiad.

6.2 Dywedodd Ieuan Wyn Jones bod profiad Plaid Cymru o ddau orchymyn cyntaf Rhan 7 wedi bod yn anodd iawn. Teimlai ei grŵp ef bod angen nodi union bwnc y gorchymyn arfaethedig yn gynnar iawn yn y dydd, gan y byddai angen sefydlu cefnogaeth wleidyddol. Roedd hyn wedi achosi i'r ddau Aelod o dan sylw deimlo anhawster a rhwystredigaeth sylweddol. Gan ymateb i Jenny Randerson, a awgrymodd mai achos yr anhawster oedd bod Plaid Cymru'n ceisio cynnig deddfwriaeth heb ystyried y costau sy'n dod yn ei sgil, dywedodd Ieuan Wyn Jones bod ei Aelodau ef hefyd yn ofalus eu bod yn cynnig Gorchmynion cadarn. Cytunwyd y byddai Marion Stapleton yn mynd â phapur BC218-00 ymaith i'w ystyried ymhellach o fewn y Weithrediaeth – yn enwedig mewn perthynas â rhestr ganolog bosibl o feysydd polisi y gellid dethol is-ddeddfwriaeth bosibl oddi arni. **Gweithredu: Marion Stapleton.**

6.3 Nodwyd bod Aelodau preifat yn San Steffan yn cael eu lobïo gan sefydliadau i gyflwyno deddfwriaeth (a oedd wedi cael ei drafftio'n barod i raddau helaeth). Hyd nes y byddai sefydliadau lobïo yng Nghymru wedi gwireddu'r potensial hwn o fewn y Cynulliad, nodwyd mai dim ond is-ddeddfwriaeth y gellid ei chynnig. Gan fod angen i Aelodau nodi testun cyn y bleidlais, cyfyngedig fyddai'r cyfle i sefydliadau lobïo gynnig testunau i'w hystyried. Cytunwyd y dylid cael gwared o'r angen i nodi testun cyn y bleidlais er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i Aelodau gyflwyno cynigion. Byddai hyn yn gofyn am newid i'r Rheolau Sefydlog. **Gweithredu: cynnig i gael ei gyflwyno gan Ysgrifenyddiaeth y Siambr.**

6.4 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC223-00 ar y cynigion i newid fformat cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd. Paratowyd papur BC224-00 gan y Swyddfa Gyflwyno, hefyd, i roi amlinelliad o rai o'r goblygiadau. Oherwydd y pryderon a fynegwyd gan Aelodau'r Pwyllgor, gofynnodd y Dirprwy Lywydd am bapur

pellach, i’w ddatblygu ar y cyd gan Marion Stapleton a Jill Thomas, y Swyddfa Gyflwyno. Byddai’n rhoi sylw i’r materion a amlinellwyd, sef:

- hyd y cyfnod holi cwestiynau arfaethedig;
- a ddylid ei gynnal ar ddydd Mawrth yn hytrach na dydd Iau, o ystyried cytundeb blaenorol y Pwyllgor;
- a ddylai’r cwestiynau gael eu gofyn gan arweinyddion y pleidiau, gan aelodau’r meinciau cefn, neu gan unrhyw un ohonynt;
- pryderon y Llywydd, fel y’u disgrifiodd yn ei e-bost.

Byddai’r papur hwn a gynhyrchwyd ar y cyd yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Medi ac yna o fewn grwpiau’r pleidiau. **Gweithredu: Marion Stapleton a Jill Thomas.**

6.5 Roedd y Pwyllgor yn dal i fod yn bryderus ynghylch hyd cwestiynau, atebion, cwestiynau atodol ac Aelodau a oedd yn darllen areithiau wedi’u paratoi ymlaen llaw.  Atgoffodd y Dirprwy Lywydd y Rheolwyr Busnes y gallai fod angen iddynt atgoffa eu grwpiau ynghylch y canllawiau y cytunwyd arnynt mewn perthynas â chwestiynau llafar.  Cytunwyd y byddai Ysgrifenyddiaeth y Siambr yn paratoi papur (gan rifo’r geiriau) ar sesiynau penodol lle na fu’n bosibl gofyn llawer o gwestiynau er mwyn gwerthuso hyn. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr.**

6.6 Nododd y Pwyllgor bapur gwybodaeth (BC234-00) ar Fesurau a oedd i ddod o du’r Llywodraeth a’u goblygiadau ar gyfer y Cynulliad.

6.7 Dosbarthwyd manylion o Orchymyn Adnabod Defaid a Geifr (Cymru) 2000 i’r Pwyllgor. Cynigiwyd y dylid defnyddio’r drefn Weithredol er mwyn gallu dosbarthu gwybodaeth i’r rhai y byddai’r Gorchymyn yn cael effaith arnynt cyn diwedd mis Gorffennaf. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â llefarwyr ynghylch goblygiadau’r Gorchymyn. Cytunwyd y dylai sylwadau gael eu hanfon drwy Marion Stapleton erbyn diwedd yr wythnos.  **Gweithredu: Rheolwyr Busnes.**

6.8 Dywedodd yr Ysgrifennydd Busnes bod Barry Jones o’r Ganolfan Llywodraethu yn bwriadu gwneud ymchwil ar y Pwyllgor Busnes.  Cytunwyd y dylai ysgrifennu at y Dirprwy Lywydd fel y gellid trafod y peth yn ffurfiol. **Gweithredu: y Trefnydd i adrodd yn ôl i Barry Jones.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**